


Rhif: 42

Enw'r Ardal  
Cymeriad Morwedd:

Bae Caerfyrddin



ACM42: Bae Caerfyrddin



Yr ardal sy'n weladwy o Draeth Pentwyn yn Mae Caerfyrddin - Rhosydd Rhosili yn y Gŵyr i'r dwyrain ac Ynys Bŷr i'r gorllewin [dde]

**Disgrifiad Cryno**

Mae'r ardal wedi ei lleoli yn rhannau allanol Bae Caerfyrddin i'r de-ddwyrain o Ynys Bŷr ac i'r gorllewin o'r Gŵyr. Dyfroedd bas lai na 30m o ddyfnder sydd yma gan fwyaf gyda gwely tywod i'r môr a thonau isel.

**Nodweddion Allweddol**

- Bae allanol bas lai na 30m o ddyfnder gyda llawr tywodlyd y môr ar oledd ysgafn
- Pwysau'r tonnau'n isel yn gyffredinol a chyflymder y llanw'n isel.
- Defnyddir y rhannau gogleddol a dwyreiniol gan adar gwyllt sy'n dod yma dros y gaeaf ac maent wedi eu dynodi o ddi-ddordeb ar gyfer gwarchod natur.
- Prin iawn yw'r llongdrylliadau yma.
- Fe'i defnyddir ar gyfer hwylio hamdden gan gychod mwy o faint a llongau carthu ac efallai bod modd gweld cychod masnachol i'r de.
- Môr agored gyda nodweddion syml, agored ar raddfa helaeth wedi ei ddominyddu gan ymchwydd, tonnau a gwyntoedd gydag ymdeimlad o bellnigrwydd.
- Y nodweddion arfordirol gweladwy allweddol yw Rhos Rhosili a bryniau arfordirol Sir Gâr gydag Ynys Bŷr a'i goleudy a meindwr Dinbych-y-pysgod i'r gorllewin.
- Fe fydd yr ymdeimlad o lonyddwch yn gostwng gan ddefnydd y Weinyddiaeth Amddiffyn o'r ardal fel ardal hyfforddi.

#### Nodweddion Ffisegol

Dŵr bas(>30m), llawr tywodlyd y môr ar oledd ysgafn tua'r de (<1°) mewn bae sydd â cherhyntau llanwol o amgylch cromlin y morlin. Llifau llanwol adeg llanwau llifogydd yn <1.5 milltir fôr tua'r glannau. Mae'r bae yn agored i bwysau isel gan y gwynt a'r tonnau, ac mae hyn yn cynyddu tuag at arfordir y dwyrain. Mae gwaddodion yn gorchuddio craigwely o dywodfaen a charreg laid Palalosöig Uwch sy'n taro i'r dwyrain-gorllewin i garreg laid a chalchfaen Jurasig, gyda ffawtiau dwyrain-gorllewin yn eu torri.

Hanner gogleddol a dwyreiniol yr ardal yw AGA ac ACA Bae Caerfyrddin ac mae'r rhan ogleddol yn Ardal sy'n Bwysig ar gyfer Adar ac yn gartref i 33,000 o adar y dŵr sy'n dod yma'n rheolaidd dros y gaeaf, fel y môr-hwyaden ddu.

#### Dylanwad diwylliannol

Mae'r ardal yn ffurfio rhan o ddyfroedd oddi ar y lan y llwybr môr i Dde Cymru ac i Gernyw a Dyfnaint, a chaiff ei bwydo gan yr Hafren a'r Avon. Mae yna gysylltiadau cryf gyda llwybrau masnach morwrol gorllewin Prydain ers Cynhanes. Ffurfiwyd cysylltiadau diwylliannol yr ardal cymeriad morwedd hon gan yr hanes hir o fasnachu ar y môr. Prin iawn yw'r llongdrylliadau yn yr ardal ac mae hyn yn arwydd o'r diffyg nodweddion peryglus. Yr unig llongdrylliadau ar gofnod yw'r Lady Sheila a'r Juta.

Gorwedd golau West Helwick ar ymylon de-ddwyreiniol yr ardal. Mae llwybrau morio hamdden ar gyfer cychod hwylio yn croesi'r ardal gan gysylltu Llansteffan gyda Dinbych-y-pysgod a gydag arfordir gogleddol Dyfnaint a Chernyw ac i'r dwyrain gyda Phorth Tywyn a Chaerdydd. Mae yna hwylio modur yn yr ardal hon hefyd.

Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys rhwydau wedi eu gosod, dal gwichiaid mor mewn potiau a'r potensial ar gyfer man-dreillio estyllod, a llinellau hir yn y gornel dde-ddwyreiniol.

Mae rhannau gogleddol a gorllewinol yr ardal yn ffurfio rhan allanol ardaloedd perygl tanio ac ymarfer milwrol Pentywyn a Maenorbŷr. Mae yna drwyddedau carthu i'r de.

#### Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol

Mae'r ardal hon yn rhannau allanol Bae Caerfyrddin ac felly mae'r tir yn amlwg ryw ychydig mewn rhai ardaloedd yn unig. Y prif nodweddion fydd Rhosydd Rhosili yn y Gŵyr, sy'n dirnod penodol, Ynys Bŷr sy'n agosach, gyda'i goleudy a bryniau arfordirol Sir Gâr, gydag ychydig o dyrbinau gwynt yn amlwg ar ddiwrnodau clir. Efallai bod modd gweld meindwr Dinbych-y-pysgod i'r gorllewin. Fe fydd y tir yn ymddangos fel llinell un dimensiwn ar y gorwel gyda lliwiau syml. Mae modd gweld Ynys Lundy fel tiffurf ynysig syml i'r de pan fydd gweledd yn glir.

Mae cymeriad y môr yn syml, cyson ac unedig ar raddfa helaeth ac mae yma ymdeimlad agored, ynysig a noeth sylweddol sy'n cynyddu tua'r de. Pennir ei rinweddau'n gyfan gwbl gan rymoedd naturiol y dŵr, trwy ymchwydd a thonau, a gwynt. Mae'r ardal yn agored i'r gwyntoedd de-orllewinol a phan fydd amodau'r tywydd yn wael mae'r mor yn debygol o deimlo'n fgythiol. Mae

yna debygrwydd cryf o lonyddwch ac ymdeimlad o wylltineb a phellenigrwydd yn y môr agored hwn.

Fe fydd nifer y cychod hamdden yn gyfyngedig ond efallai y bydd modd gweld cychod masnachol ar adegau gan gynnwys llongau carthu i'r de. Fe fydd defnydd yr ardal ar gyfer ymarferion a hyfforddiant milwrol yn tarfu'n ddifrifol ar lonyddwch ar adegau.

#### Buddion diwylliannol a gwasanaethau

Mae'r ardal yn cyfrannu'n helaeth at wasanaethau hamdden ar ffurf hamdden morol h.y. hwylio a morio modur, at dreftadaeth naturiol mewn perthynas â'i rôl fel ardal sy'n croesawu adar dros y gaeaf, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol ar ffurf y môr, sydd heb ei ddifetha gan fwyaf, sy'n weladwy o arfordiroedd sensitif y Gŵyr a'r Parc Cenedlaethol.

#### Rhesymau dros newid

Crynodeb	Rhesymau allweddol dros newid							
<p>Rhesymau naturiol cyfyngedig dros newid yn y bae hwn.</p> <p>Mae carthu'n gostwng llongyddwch.</p>	Rhinweddau arbennig	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Gwasgedd ymwelwyr	Defnydd morol - masnachol a physgota	Ynni'r tir mawr neu fwynau	Gwasgedd datblygiad	Newidiadau rheoli tir	Defnydd MOD
	Ysblander yr Arfordir							
	Ynsoedd							
	Amrywiaeth y Tirlun							
	Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch							
	Daeareg Amrywiol							
	Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth							
	Archeoleg Gyfoethog							
	Cymeriad Anheddiad Nodedig							
	Treftadaeth Ddiwylliannol							
	Mynediad i'r Parc							
	Lle i Anadlu							
	Allwedd							

#### Sensitifeddu allweddol

Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd	Ffactorau sy'n tynnu wrth sensitifrwydd
<p>Cymeriad syml, agored, gwyllt a phellennig gyda golygfeydd clir o arfordir De Cymru a Lundy.</p> <p>Ffurio rhan o'r gosodiad agored ar gyfer Bae Caerfyrddin gyda Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol y Gŵyr yn edrych drosto ac yn cyfrannu at yr ymdeimlad o bellennigrwydd a gwylltineb yn yr ardaloedd hyn.</p>	<p>Presenoldeb defnydd y Weinyddiaeth Amddiffyn a charthu i'r de yn gostwng llongyddwch.</p>

<p>Gwerth rhan o'r ardal ar gyfer gwarchod natur ar gyfer adar sy'n dod yma dros y gaeaf.</p> <p>Llwybr Arfordir Sir Benfro a Chymru fel derbynnydd sensitif sy'n edrych dros yr ardal o bellter.</p> <p>Diffyg cyffredinol llygredd golau.</p>	
---	--